# PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Dydd Iau, 7 Tachwedd 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones (Cadeirydd), William Cowie, Meirick Davies, Pat Jones a Merfyn Parry

Roedd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg hefyd yn bresennol ar gyfer eitemau rhaglen penodol oedd yn ymwneud â'u portffolios.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (SE) ac Uchelgais Economaidd a Chymunedol (EM), Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (LG), Swyddog Comisiynu a Gwerthuso (JJH), Rheolwr Busnes BDPLl (GH), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## CWORWM

Adroddodd y Cadeirydd nad oedd cworwm yn y cyfarfod ond y byddai'r Cynghorydd Bill Cowie yn cyrraedd maes o law ac felly byddai yna gworwm. Cytunwyd i barhau â'r cyfarfod ar y sail y gallai unrhyw benderfyniadau a wnaed gael eu cadarnhau wedi iddo gyrraedd.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Ann Davies, Alice Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a Bill Tasker. Derbyniwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd a David Smith, Aelod Arweiniol Gwarchod y Cyhoedd nad oedd yn gallu bod yn bresennol i'r eitemau hynny ar yr agenda a oedd yn gysylltiedig â'u portffolios.

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Nododd y pwyllgor nad oedd unrhyw CVs/datganiadau wedi'u derbyn ar gyfer swydd Is Gadeirydd y pwyllgor am weddill blwyddyn y Cyngor 2013/14.

## 3 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Meirick Davies ddiddordeb personol yn eitem rhif 7 ar yr agenda – 'Amcanion Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2014/15 a thu hwnt' gan mai ef yw Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 26 Medi 2013.

**Cywirdeb –** Tudalen 5 – Yn bresennol – Roedd Dr Dawn Marjoram yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf ond ni chofnodwyd ei phresenoldeb yn y cofnodion.

**Materion yn Codi –** Tud.6 – Eitem Rhif 5 Cofnodion, Materion yn Codi – Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio fod ymholiadau wedi'u gwneud parthed adleoli CAHMS ac y byddai hi'n ceisio cael ateb.

Tud.6 - Eitem Rhif 6 Addysg Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru - Adroddodd y Cadeirydd ar lythyr a dderbyniodd gan yr Athro Scott a oedd yn codi pryderon am y ffordd y'i cyfarchwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd hi wedi ymddiheuro a gofynnodd y Cadeirydd, er mwyn osgoi fod hyn yn digwydd eto, y dylai'r aelodau godi unrhyw fater o'r fath gyda hi yn uniongyrchol yn y cyfarfod. Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio fod yr Athro Scott wedi'i wahodd i gyfarfod yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2013 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 6 TEULUOEDD YN GYNTAF

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad (fe'i dosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn tynnu sylw at y gwaith ardderchog a wnaed a'r rhaglen gynhwysfawr sydd yn ei lle i roi cymorth i deuluoedd. Roedd yr adroddiad yn manylu ar gynnydd y darparwyr hyd yma yn cyflawni eu gwasanaethau, Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf, a Deilliant 4 y Cynllun MAWR. Roedd manylion Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Sir Ddinbych (Atodiad 1) ynghyd ag astudiaeth achos gyfrinachol (Atodiad 2) ynghlwm wrth yr adroddiad.

Roedd Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn hybu datblygu systemau a chymorth amlasiantaeth effeithiol, gyda phwyslais clir ar atal ac ymyrraeth gynnar i deuluoedd. Ymhelaethodd y Rheolwr Tîm Partneriaethau a Chymunedau (PTCM) a'r Swyddog Comisiynu a Gwerthuso ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir yn Sir Ddinbych a'r cynnydd o ran cyflenwi prosiectau ynghyd â gweithgareddau diweddaraf y rhaglen. O ran cyllid, roedd £1.2m (2012/13) a £1.3m (2013/14) wedi'u dyrannu i gefnogi gwasanaethau nas comisiynwyd a rhai a gomisiynwyd yn strategol. Ymddangosai mai'r cyllid ar gyfer 2014/15 fyddai £1.3m. Er mwyn galluogi'r pwyllgor i ystyried yr astudiaeth achos cyfrinachol (Atodiad 2 yr adroddiad) ***PENDERFYNWYD*** Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A y Ddeddf uchod, oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y diffinnir hi ym Mharagraffau 12 a 13 Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

Defnyddiodd y PCTM yr astudiaeth achos i ddarlunio effeithiolrwydd y dull gweithredu amlasiantaeth i gefnogi teulu arbennig a arweiniodd at ddeilliannau

positif.  Wedi ystyried yr astudiaeth achos dychwelodd y cyfarfod i ***SESIWN AGORED***.

Nododd y pwyllgor yr ystod o wasanaethau a ddarperir a'r cynnydd mewn cyflenwi'r gwasanaethau hynny o fewn Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.  Canmolodd yr aelodau'r gwaith partneriaeth llwyddiannus fel y gwelwyd yn yr astudiaeth achos teulu a chydnabuwyd gwerth y rhaglen i deuluoedd.  Yn ystod trafodaeth gofynnodd y pwyllgor am sicrwydd ynghylch dyraniadau cyllid yn y dyfodol ac eglurder ar y ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol.  O safbwynt y comisiynu is-ranbarthol gofynnwyd i'r swyddogion prosiect hefyd i fanylu ar sut y byddai'r prif fuddiannau'n cael eu cyflawni a sut y byddid yn mesur y deilliannau.  Ymatebodd y swyddogion fel a ganlyn -

- roedd cyllid grant penodol i gefnogi Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru – roedd hi'n bosibl y gallai cyllid yn y dyfodol fod yn rhan o'r dyraniad cyllid cyffredinol
- er bod hon yn rhaglen bum mlynedd, roedd arian yn cael ei ddyrannu'n flynyddol a oedd yn arwain at drafferthion o ran cynllunio darpariaeth a chytundebau yn y dyfodol.  Roedd y Cyngor yn gorfod adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru bob chwarter ar sut y gwariwyd y cyllid
- roedd y contractau/cytundebau lefel gwasanaeth presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2014 ac roedd Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ailgynnull i reoli prosiect y broses gomisiynu ac i wneud argymhellion i'r Grŵp Gweithredol
- roedd setiau dysgu rhanbarthol wedi cael eu sefydlu fel rhan o'r rhaglen a ddylai gynhyrchu arbedion ariannol i bartneriaid a gwneud prosesau yn fwy effeithiol ar draws nifer o ardaloedd - drwy weithio ar y prosiect comisiynu is-ranbarthol hwn (gyda Chynghorau Wrecsam a Chonwy), byddai darparu Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc yn Sir Ddinbych yn arbed £31k yn gyfunol o fis Ebrill 2014 heb ddim niwed i lefel y gwasanaeth - roedd cynlluniau eraill yn cynnwys symleiddio'r prosesau ar gyfer ceisiadau am gyllid a datblygu pecyn cymorth ar gyfer dogfennau tendr ac yn gyffredinol gweithio gydag asiantaethau eraill i gyflwyno gwasanaethau mewn ffordd well.

Croesawodd y pwyllgor y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud ond tynnodd sylw at yr anawsterau mewn gwerthuso effaith a llwyddiant cyffredinol y rhaglen a holwyd a ellir darparu deilliannau mwy mesuradwy.  Awgrymwyd fod adroddiadau pellach yn cynnwys yr union ffigyrau y tu ôl i'r canrannau ac yn ystyried rhinweddau cyflwyno system goleuadau traffig i ddangos cynnydd.  Roedd y swyddogion yn cydnabod anawsterau mesur perfformiad, yn enwedig ar draws asiantaethau cyfunol, ac roeddent yn gweithio ar systemau i gipio data a datblygu offerynnau deilliant.  Gellid darparu'r gwir ffigyrau yn ogystal â chanrannau.  Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a

***PHENDERFYNWYD***

*(a)* *yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, fod cynnydd y darparwyr yn cyflenwi gwasanaethau a'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau mewn perthynas â'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir Ddinbych yn cael eu nodi, a*

(b) *bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor mewn tua wyth mis neu yn gynt os na fyddai'r dyraniad cyllid a ddisgwylir ar gyfer 2014/15 yn cael ei wireddu.*

Wrth i'r Cynghorydd Bill Cowie gyrraedd yr adeg yma roedd cworwm gan y pwyllgor a chadarnhawyd y penderfyniadau blaenorol.

**7 AMCANION GWELLA AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU AR GYFER 2014/15 A THU HWNT**

[Datganodd y Cynghorydd Meirick Davies gysylltiad personol â'r eitem hon]

Cyflwynwyd copi o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynlluniau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2014/14 a thu hwnt (dosbarthwyd yn flaenorol) i gael ystyriaeth a sylwadau'r aelodau. Roedd y Prif Swyddog Tân Simon Smith (CFO) a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân Dawn Docx (DCFO) yn bresennol yn y cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad *power point* gan y CFO ar yr amcanion gwella a'r cynlluniau arfaethedig i ddarparu a chyflenwi gwasanaethau yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol. Roedd y tri amcan gwella a gynigiwyd yn ymwneud â'r canlynol -

- 1 – helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau yn sgil tanau damweiniol mewn llety preswyl
- 2 - sicrhau fod Gogledd Cymru'n cael y lefel gwasanaeth gorau posibl o fewn y cyfyngiadau ariannol, defnyddio amrywiaeth o ffyrdd o reoli i gael y cwmpas gorau un o wasanaeth tân ac achub yn yr ardal
- 3 – gweithredu cynllun ariannol 3 blynedd ar gyfer 2014/15 tan 2016/17 sy'n ariannu lefel presennol y gwasanaeth, ond sy'n ceisio cyfyngu cost gwneud hynny i'r hyn sy'n cyfateb i £1 ychwanegol y pen

Wrth gyflwyno'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, eglurodd y CFO y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion hynny a rhoddodd ychydig o wybodaeth gefndir, yn cynnwys yr arbedion a wnaed gan yr Awdurdod Tân yn barod, ynghyd â gwybodaeth allweddol am y gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at yr effaith bosibl yn nhermau'r gyllideb. Amlygodd y Cynghorydd Meirick Davies, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y newidiadau yn y gwasanaeth gyda newid pwyslais o adweithio i atal ynghyd â'r newid yr un pryd mewn patrymau gwaith ac ailddyrannu adnoddau. Dywedodd fod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried cynigion am y gyllideb y diwrnod cynt ac y byddai wedi bod o ddefnydd pe baent hwythau hefyd wedi clywed y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion presennol. Gallai realiti toriadau yng nghyllideb yr Awdurdod Tân arwain at golli gorsafoedd tân a swyddogion tân.

O safbwynt cynigion cyllideb 2014/15 ac yng ngoleuni'r setliad refeniw i lywodraeth leol, dywedodd y Swyddogion Tân fod y cynigion ariannol yn cael eu hailystyried er mwyn edrych ar y posibilrwydd o rewi'r gyllideb am y bedwaredd flwyddyn. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles fod gostyngiad o 7.7% yng nghyllideb y Cyngor mewn termau real ac y byddai'r cynigion sydd yn yr adroddiad ymgynghori yn dod i gyfraniad ychwanegol o £90k.

Roedd yr aelodau'n cydnabod y gwasanaeth gwerthfawr a ddarperir gan yr Awdurdod Tân ac Achub ac adroddwyd nifer o esiamplau cadarnhaol yn seiliedig ar eu profiadau personol eu hunain ac o waith da a wnaed yn eu cymunedau. Ymatebodd y Swyddogion Tân a'r Cynghorydd Davies i gwestiynau fel a ganlyn -

- adroddwyd ar y berthynas weithio ardderchog rhwng yr Awdurdod Tân ac adrannau'r Cyngor yn cydweithredu gyda golwg ar ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas – daeth 30% o'r cyfeiriadau gan bartneriaid ac roedd hyn yn fwy na'r targed a osodwyd o 25%
- manylwyd ar y rhaglen o wiriadau diogelwch tân yn y cartref a chyflenwi a gosod larymau mwg am ddim ynghyd ag amryw o ymyriadau a rhagofalon eraill i atal digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân
- cadarnhawyd fod y map oedd yn dangos gorsafoedd tân amser cyflawn ac yn ôl galw yn y cyflwyniad yn wahanol i'r un a ddosbarthwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ac a anfonwyd drwy e-bost at aelodau'r pwyllgor gyda sleidiau'r cyflwyniad
- tynnwyd sylw at yr effaith bosibl ar wasanaethau o ganlyniad i beidio â chynyddu'r gyllideb a chadarnhawyd fod cyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân wedi'i drefnu ar 5 Rhagfyr i drafod cyllideb 2014/14 ymhellach.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion Tân am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyflwyniad diddorol ac addysgiadol

***PENDERFYNWYD*** *derbyn dogfen ymgynghori'r Awdurdod Tân ac Achub ar ei gynlluniau i'r dyfodol a nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch cyllideb ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2014/15, yng ngoleuni cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar y cyllid i awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn y dyfodol.*

Yn y fan hon (10.45 a.m.) torrodd y cyfarfod am baned.

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD LLEOL DIOGELU PLANT CONWY A SIR DDINBYCH (BLLDP) A DIWEDDARIAD YNGLŶN AG INTEGREIDDIO BYRDDAU LLEOL DIOGELU PLANT GOGLEDD CYMRU.**

Cyflwynwyd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gan y Cynghorydd Bobby Feeley. Roedd hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Bwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych ac yn diweddaru aelodau ar y cynnydd a wnaed ynglŷn ag integreiddio a chydweithredu rhwng Byrddau Lleol Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Roedd Adroddiad Blynyddol y BLlDP yn rhoi trosolwg bras o weithrediadau'r Bwrdd yn cynnwys ei drefniadau llywodraethu ac ariannol. Roedd hefyd yn crynhoi prif flaenoriaethau 2012/13 ynghyd â'r cynnydd a wnaed. Ymhelaethodd Rheolwr Busnes BLlDP Conwy a Sir Ddinbych ar bwyntiau allweddol eraill a oedd yn ymdrin ag-

- aelodaeth a phresenoldeb
- cyfraniadau ariannol gan sefydliadau partner, a'r
- broses hunan-asesu flynyddol.

O ran datblygu dulliau gweithredu rhanbarthol, roedd Byrddau Gogledd Cymru wedi cytuno ar bedwar maes gwaith a oedd yn cael ymdriniaeth bellach. Roedd trafodaethau'n parhau ar swyddogaeth a llywodraethu'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant a'i berthynas â threfniadau lleol. Dywedwyd y byddai'r adolygiad presennol o wasanaethau cyhoeddus yn debygol o effeithio ar y trefniadau rhanbarthol.

Ystyriodd y pwyllgor y syniad o ddatblygu trefniadau rhanbarthol ac roedd cydnabyddiaeth y gallai rhai prosesau elwa ar ddull gweithredu rhanbarthol. Serch hynny, pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd sicrhau na fyddai'r lefelau presennol o ddiogelwch i blant yn lleol yn cael eu peryglu o ganlyniad a bod y trefniadau cadarn ar gyfer diogelu plant yn cael eu cynnal. Wrth archwilio'r adroddiad, mynegodd yr aelodau bryder arbennig am y lefel o drais yn y cartref a gofynnwyd cwestiynau am y ffactorau sy'n cyfrannu at hyn, rôl yr heddlu a'r broses gyfeirio a gofynnwyd am gael gwybod sut roedd y broblem hon yn cael ei thaclo. Gofynnwyd am sicrhad pellach ynglŷn â chynnydd mewn meysydd eraill o ddiogelu plant. Ymatebodd y swyddogion i'r aelodau fel a ganlyn -

- cadarnhawyd fod trais yn y cartref yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r BLlDP gyda gwaith yn mynd rhagddo i adnabod plant sy'n cael trafferthion oherwydd problemau cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl neu drais domestig eu rhieni er mwyn sicrhau nad oedd y pryderon yn datblygu o ddiogelu i faterion amddiffyn plant - roedd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Rheolwr Strategol y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio ar lefel strategol i fynd i'r afael â'r broblem o safbwynt y plentyn.
- cadarnhawyd fod cymysgedd o ffactorau'n cyfrannu at drais yn y cartref a'i bod yn anodd penderfynu ar y prif ffactorau ac a oedd mwy o achosion wedi bod yn gysylltiedig â thrais yn y cartref o ganlyniad i'r dirwasgiad a'r pwysau ariannol a wynebir gan deuluoedd
- manylwyd ar ran Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau eraill yn y broses a dywedwyd fod y BLlDP yn ystyried nifer yr achosion o drais yn y cartref oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc bob chwarter – gellid cynnwys yr wybodaeth hon fel atodiad cyfrinachol mewn adroddiadau i'r pwyllgor yn y dyfodol
- eglurwyd fod gwybodaeth fwy penodol a deallus yn cael ei rhoi i gyfeiriadau drwy ffurflenni CID16 i alluogi adnabod y rheiny sydd mewn perygl yn well ac i'r help priodol gael ei gyfeirio at deuluoedd - roedd y Cyd Banel Cyfeirio ac Asesu yn asesu'r cyfeiriadau hynny a hefyd roedd Canolbwynt Diogelu Amlasiantaeth yn cael ei dreialu yn Wrecsam.
- er bod cyfran fechan iawn o gyfeiriadau'n arwain at blant yn mynd i ofal, roedd llawer o deuluoedd yn elwa ar y gefnogaeth a roddir gan y Gwasanaethau Plant a rhaglenni megis Teuluoedd yn Gyntaf
- cadarnhawyd fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi recriwtio eu Tîm Diogelu er mwyn cefnogi'r agenda ddiogelu leol.

[Yn y fan yma gadawodd y Cynghorydd Meirick Davies y cyfarfod ac felly nid oedd cworwm.]

Nododd yr aelodau gyfraniad hollbwysig y partneriaid i'r agenda ddiogelu leol a phwysigrwydd gwaith y pwyllgor yn monitro gwaith y BLlDP. Gan fod trais yn y cartref yn dal yn broblem sylweddol mewn cymunedau, gofynnodd yr aelodau i gyfeiriad arbennig gael ei wneud at y broblem hon yn yr adroddiadau i'r pwyllgor yn

y dyfodol ynghyd â'r gwaith a wnaed i'r perwyl hwnnw gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd ystyried tueddiadau ynghyd ag effeithiolrwydd y mesurau a gyflwynwyd i fynd i'r afael â nhw.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei rôl ar y Paneli Mabwysiadu a Maethu a'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud i gefnogi teuluoedd yn y fan honno a mynegodd werthfawrogiad y pwyllgor o'r gwaith hwnnw.

***ARGYMHELLWYD****–*

*(a) yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, fod Adroddiad Blynyddol Bwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei dderbyn a nodi'r gwaith a wneir tuag at gydweithio rhwng Byrddau Lleol Diogelu Plant Gogledd Cymru;*

*(b) fod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor mewn tua chwe mis yn cynnwys y canlynol –*

- *cynnydd o ran cyflawni prif flaenoriaethau 2013/14 a gwybodaeth ar y prif flaenoriaethau ar gyfer 2014/15*
- *dadansoddiad o'r data a'r tueddiadau a ganfuwyd yn 2013/14 i benderfynu pa ddulliau gweithredu oedd yn gweithio'n dda a pha rai na fu'n llwyddiannus, a*
- *diweddariad ar y datblygiadau cenedlaethol a rhanbarthol diweddaraf o safbwynt Byrddau Lleol Diogelu Plant.*

## 9 TRAWSNEWID CLUDIANT – DIWEDDARIAD PROSIECT CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CLUDIANT TEITHWYR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CDECA) adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru'r pwyllgor ar gynnydd ar y Prosiect Cydweithredol Rhanbarthol Cludiant Teithwyr ers i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Busnes Amlinellol ym Mai 2013. Roedd Cwmpas y Prosiect wedi'i roi ynghlwm wrth yr adroddiad.

Penodwyd rheolwr prosiect rhanbarthol a ariannwyd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac roedd y chwe chyngor wedi cytuno ar gynllun prosiect diwygiedig. Darparwyd adroddiad cynnydd ar y meysydd canlynol a adnabuwyd fel rhai sydd angen eu gweithredu'n gynnar -

- dull gweithredu ar y cyd i wiriadau CRB (DBS) - gwnaed cynnydd da a byddai achos busnes yn cael ei ddatblygu dros un gwasanaeth canolog er mwyn cael ffordd fwy gwydn a chost effeithiol o wirio gyrwyr heb unrhyw bwysau ar gyllideb yr awdurdod
- dull gweithredu ar y cyd i Docynnau Teithio Rhatach – roedd y maes hwn yn fwy cymhleth ac yn dal i gael ei archwilio
- adolygu a chaffael Gwybodaeth i Deithwyr ar y cyd (yn cynnwys amserlenni a gwybodaeth bapur/electronig/amser real arall) – byddid yn chwilio am

gymorth allanol i ystyried systemau a meddalwedd addas i ddatblygu'r dull hwn a chynnig mwy o alinio ac integreiddio'r gwasanaethau

- roedd prosiectau posibl eraill yn cynnwys datblygu opsiynau Cludiant Cymunedol a chydweithio agosach ar waith a rhaglenni Diogelwch ar y Ffyrdd.

Holodd y Cadeirydd pa mor hawdd oedd rhannu CRBs rhwng adrannau a rhwng cyrff allanol a'r Cyngor. Adroddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles ar waith sy'n cael ei wneud gan AD i'r perwyl hwnnw. O safbwynt y dull gweithredu ar y cyd i wiriadau CRB ar gyfer cludiant cyhoeddus, roedd y pwyllgor am gael sicrhad na fyddai'r trefniadau cadarn sydd yn eu lle yn lleol ar hyn o bryd yn cael eu glastwreiddio o ganlyniad. Dywedodd y CDECA mai'r bwriad oedd defnyddio'r arferion gorau ar draws y rhanbarth er mwyn cynnal a chodi safonau. O safbwynt tocynnau teithio rhatach, gofynnwyd am eglurhad am y gostyngiad yn yr angen am offer a'r gostyngiad dilynol mewn costau cynnal a chadw. Yn ôl a ddeallai'r CDECA roedd hyn yn cyfeirio at yr offer sy'n cynhyrchu'r tocynnau rhatach a chytunodd i wneud yn siŵr o hynny yn ystod cyfarfod gyda'r Bwrdd Prosiect trannoeth. Cytunodd hefyd i bwysleisio i'r Bwrdd farn y pwyllgor na ddylai'r prosesau cadarn ar gyfer delio â gwiriadau CRB gael eu peryglu o ganlyniad i'r dull gweithredu ar y cyd.

***ARGYMHELLWYD***–

*(a)* *yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod fod yr adroddiad cynnydd ar y Prosiect Cydweithredol Rhanbarthol Cludiant Teithwyr yn cael ei dderbyn a'i nodi, a*

*(b)* *bod unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol pellach wrth symud ymlaen â'r prosiect cydweithredu yn cael eu dwyn i sylw'r pwyllgor er gwybodaeth/gweithredu fel y bo'n briodol.*

## 10 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor yn y dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd blaenraglen waith (Atodiad 1); Blaenraglen waith y Cabinet (Atodiad 2) a Chynnydd ar Benderfyniadau'r Pwyllgor (Atodiad 3) ynghlwm wrth yr adroddiad.

Adroddodd y Cydlynydd Archwilio ar newidiadau i'r rhaglen waith ac amrywiol faterion a oedd angen sylw. Arweiniodd trafodaeth gan y pwyllgor at –

- gytuno i wahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol perthnasol i fynychu'r cyfarfod nesaf pan fydd eitemau penodol sy'n gysylltiedig â'u portffolios yn cael eu hystyried
- cytuno i drefnu fod adroddiad y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn cael ei roi gydag adroddiad y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer y cyfarfod ym Mai/Mehefin 2014 gan gyfeirio'n arbennig at faterion trais yn y cartref a gwaith a wnaed gyda ac ochr yn ochr â'r ddau grŵp

- nodi'r diweddariad ar y gweithredoedd a oedd yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf fel ag y manylwyd arnynt ym mrîff gwybodaeth y pwyllgor (dosbarthwyd yn flaenorol) ynghyd â'r adroddiadau gwybodaeth a ddarparwyd ar (1) Diweddariad Adolygiad Treftadaeth a Chefn Gwlad; (2) Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych ar y cyd, a (3) Ymweliad gwasanaeth yr Arweinydd â'r Tîm Cynllunio a Pherfformiad Busnes.

***ARGYMHELLWYD*** *yn amodol ar y newidiadau a'r ceisiadau uchod, fod y rhaglen waith fel ag y manylir arni yn Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo.*

## 11 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Yn absenoldeb y Cynghorydd Margaret McCarroll, darllenodd y Cadeirydd ei hadroddiad ar yr ymweliad darparwr mewnol â Chanolfan Ddydd Hafan Deg a wnaed gyda'r Cynghorydd Bobby Feeley ar 7 Hydref 2013. Roedd yr adroddiad yn gadarnhaol gan mwyaf ond codwyd rhai pryderon am ansicrwydd ynglŷn â dyfodol y Ganolfan, ac integreiddio defnyddwyr gwasanaeth o ardal Prestatyn a oedd tan yn ddiweddar yn mynychu Canolfan Ddydd Llys Nant. Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio y byddai'r adroddiad ac adborth o ymweliadau darparwyr mewnol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ym mis Mawrth 2014.

***ARGYMHELLWYD*** *fod yr adroddiad llafar ar ymweliad y Cynghorydd Margaret McCarroll â Chanolfan Ddydd Hafan Deg yn cael ei nodi.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 p.m.